Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

19 Hydref 2012

Annwyl Jocelyn,

**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth leol yn craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013/14**

Fel rhan o'r broses o graffu ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2012-13, gwahoddodd y Pwyllgor nifer o Weinidogion i ddod i sesiynau craffu ar y cynigion cyllideb sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor. Cynhaliodd y Pwyllgor hefyd ddigwyddiad i randdeiliaid ar 26 Medi, gyda chynrychiolwyr o bob sector sydd wedi'u cynnwys yng nghylch gwaith y Pwyllgor; ynghyd â chyfres o sesiynau ar y modd y dylid cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb wrth wneud gwaith cynllunio ariannol ar 4 Hydref.

Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith Gweinidogion mewn dwy sesiwn:

- 10 Hydref

  Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau; a'r

  Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros Gydraddoldeb.

- 18 Hydref

  Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth; a'r

  Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg.

Mae'r llythyr hwn yn amlinellu ein sylwadau a allai lywio eich gwaith craffu strategol cyffredinol ar y Gyllideb Ddrafft.

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh
Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn/Tel: 029 2089 8429
Ebost/Email: PwyllgorCCLll@cymru.gov.uk

## Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

### *Datblygu cynaliadwy*

Nid oedd y Gweinidog yn glir ynglŷn â sut yr oedd arfarniadau ynghylch datblygu cynaliadwy wedi effeithio ar ddyraniadau ei gyllideb yn gyffredinol. Nid oedd yn glir beth oedd diffiniad Llywodraeth Cymru o 'ddatblygu cynaliadwy', ac a oedd hyn yn cael ei ddefnyddio'n gyson ym mhob un o adrannau'r Llywodraeth. Cytunodd y Gweinidog i roi nodyn yn esbonio hyn. Mae'r Pwyllgor yn teimlo y dylai'r Gweinidog ddangos yn fwy clir yn y dyfodol sut y mae arfarniadau ynghylch datblygu cynaliadwy wedi effeithio'n uniongyrchol ar ei benderfyniadau wrth lunio'i gyllideb.

### *Buddsoddi i Arbed*

Cyfaddefodd y Gweinidog y gallai fod gwelliant o ran nifer y sefydliadau yn y sector cyhoeddus sy'n gwneud ceisiadau i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed a sut y maent yn defnyddio'r cyllid hwn i gyflawni'u swyddogaethau yn fwy effeithlon. Mae angen i'r Gweinidog barhau i adolygu effaith y gronfa hon a'i chanlyniadau. Mae angen i'r Gweinidog sicrhau bod sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn cael eu hannog i fanteisio ar y gronfa.

### *Cydweithredu*

Ar 16 Hydref 2012 (pan gyhoeddwyd y Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol ar gyfer 2013-14) cyhoeddodd y Gweinidog fod cronfa o £10 miliwn yn cael ei chreu o ganlyniad i'r setliad, sef swm sy'n cyfateb i 0.25% o'r Grant Cynnal Refeniw cyfan, a fyddai ar gael i awdurdodau wrth gyflwyno cynigion dichonadwy ar gyfer cyflawni prosiectau ar y cyd ar sail ranbarthol. Dylid parhau i adolygu faint sy'n manteisio ar y gronfa hon, ynghyd ag adolygu ei heffaith a'i heffeithlonrwydd.

### *Cynllun Cytundebau Canlyniadau*

Dywedodd y Gweinidog fod y cynllun cytundebau canlyniadau (rhaglen tair-blynedd gwerth £31 miliwn sy'n dyrannu grantiau i awdurdodau lleol yn seiliedig ar berfformiad yn erbyn targedau penodol) yn dod i ben ar ôl 2013-14. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn gobeithio cryfhau'r cynllun hwnnw a chyfaddefodd y gallai fod newidiadau yn y ffordd y mae arian parod yn cael ei ddyrannu ar gyfer y cynllun. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod effeithlonrwydd ac effaith y cynllun yn cael ei adolygu'n barhaus, a hynny er mwyn sicrhau ei fod yn ysgogi gwelliannau wedi'u targedu mewn llywodraeth leol, ac i sicrhau bod y cynllun yn llwyddiannus wrth leihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol.

### *Deddfwriaeth*

Pan fydd Gweinidog yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth newydd sy'n effeithio ar lywodraeth leol yn ystod y blynyddoedd ariannol sydd i ddod, dylai ei gynigion ar y gyllideb esbonio'n fwy eglur pa ystyriaeth sydd wedi cael ei rhoi i gyflwyno'r ddeddfwriaeth. Os na fydd beichiau ariannol newydd ar lywodraeth leol, dylai dogfennau'r gyllideb ddangos sut y daethpwyd i'r casgliad hwnnw. Os bydd

beichiau newydd yn deillio o'r ddeddfwriaeth, dylai dogfennau'r gyllideb egluro hynny a dangos yn glir sut y cyflwynir unrhyw gyllid angenrheidiol.

***Cynllun newydd i ddisodli Budd-dal y Dreth Gyngor***

Dywedodd y Gweinidog ei fod yn gweithio ar gynllun newydd i ddisodli budd-dal y dreth gyngor yng Nghymru ond bod amcangyfrifon presennol yn awgrymu y byddai gostyngiadau o 14% i 15% yn y gyllideb gan Lywodraeth y DU i gyflawni hynny. Clywodd y Pwyllgor nad oes gan Lywodraeth Cymru 'yr arian i gyllido hynny' ac roedd yn ymddangos na fyddai'r union ffigurau ar gael tan fis Rhagfyr. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei fod "yn obeithiol - ac mae hynny cystal ag y bo modd - y byddwn yn gallu cyflwyno cynllun ar gyfer system ym mis Ebrill". Yn ei Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol ar gyfer 2013-14 ar 16 Hydref, cyhoeddodd y Gweinidog y byddai 'swm tybiannol o £214 miliwn i gyllido'r cynllun cefnogi'r dreth gyngor'. Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw'r Gweinidog yn fwy hyderus bod modd cyflwyno cynllun mewn pryd. Dylai Llywodraeth Cymru wneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau y gellir cyflwyno cynllun a dylai roi sicrwydd na fydd hyn yn effeithio ar y rheini sy'n dibynnu ar fudd-daliadau o'r fath ac na fydd effaith andwyol ar gyllid llywodraeth leol o ganlyniad i hynny.

***Cymunedau yn Gyntaf***

Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor "rydym hefyd yn credu y byddwn yn cael gwell gwerth am arian wrth ailstrwythuro'r rhaglen...". O gofio hyn, a diffyg monitro effeithiol o'r modd y gwariwyd cyllid Cymunedau yn Gyntaf, dylai'r Gweinidog osod systemau ar waith i sicrhau gwerth am arian ar ddechrau'r cyfnod hwn.

**Y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros Gydraddoldeb.**

Er bod cynnydd yn cael ei wneud ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, mae'r Pwyllgor yn teimlo bod lle i wella eto. Yn arbennig, hoffai'r Pwyllgor weld agwedd fwy trefnus, cyson a thryloyw tuag at yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb flwyddyn nesaf, a hynny'n unol â chanllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Bydd y Pwyllgor hwn yn cyhoeddi argymhellion penodol ynghylch yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar wahân, a hynny'n seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd cyn craffu ar y gyllideb ddrafft eleni.

**Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth;**

***Treftadaeth***

Dylai'r Gweinidog sicrhau nad yw'r gostyngiad termau real mewn cyllid ar gyfer y celfyddydau yn 2013-14 yn effeithio ar yr ymrwymiadau cyfiawnder cymdeithasol sy'n ymwneud â'r celfyddydau a diwydiant yn y *Rhaglen Lywodraethu.*

Dylai'r Gweinidog sicrhau nad yw'r gostynigad termau real mewn cyllid ar gyfer amgueddfeydd a llyfrgelloedd yn effeithio ar gyflwyno *Strategaeth Amgueddfeydd Cymru* a'r rhaglen *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli.*

### *Grant Cyfleusterau i'r Anabl*

Bu gostyngiad sylweddol o tua 20 y cant yn nyraniadau'r gyllideb cyfalaf "Cymorth Cyffredinol ym Maes Tai". Un o'r rhaglenni a gefnogir gan y dyraniad hwn yw gwariant gan awdurdodau lleol ar grantiau cyfleusterau i'r anabl (DFGs). Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r gostyngiad hwn yn cael effaith sylweddol ar grantiau cyfleusterau i'r anabl. Rydym yn teimlo y dylai'r Llywodraeth barhau i adolygu effaith y gostyngiad sylweddol hwn, a dylai weithio gydag awdurdodau lleol i wneud popeth o fewn ei gallu i leddfu ar unrhyw effaith negyddol.

Nodwyd nad oedd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cyfeirio at effaith y gyllideb lai ar grantiau cyfleusterau i'r anabl. Ni chafwyd eglurhad ynglŷn â'r rheswm dros hyn gan y Gweinidog, na'i swyddogion.

### *Tai Fforddiadwy*

Nodwyd fod y Gweinidog wedi rhoi ymrwymiad yn ystod y Cyfarfod Llawn y byddai'r grant tai cymdeithasol yn gyllideb a ddiogelir. Cadarnhaodd y Gweinidog y bu gostyngiad yn lefel y grant tai cymdeithasol.

Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r dyraniad refeniw o £4miliwn "Cymorth ar gyfer Tai Cymdeithasol" yn cael ei ddefnyddio i gynnal costau cyllido dull i gyflwyno £100 miliwn o gyllid ychwanegol, a 1,250 o gartrefi. Nid oes digon o fanylion ar hyn o bryd i wneud sylw heblaw am y ffaith bod angen monitro'r gwariant hwn a'i adolygu'n barhaus.

### *Cefnogi Pobl*

Nododd y Pwyllgor fod y gyllideb ar gyfer y rhaglen Cefnogi Pobl wedi'i diogelu. Rydym yn teimlo y bydd galw cynyddol ar y rhaglen hon yn ystod y flwyddyn sydd i ddod o ganlyniad i'r hinsawdd economaidd presennol, a byddem yn annog y Gweinidog i sicrhau bod systemau cadarn ar waith i sicrhau bod y rhaglen yn rhoi'r gwerth gorau am arian.

### *Safon Ansawdd Tai Cymru*

Ym mis Ionawr 2012, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad ar y cynnydd wrth weithredu Safon Ansawdd Tai Cymru. Roedd yr adroddiad yn cynnwys beirniadaeth o drefniadau monitro a phryderon am ansawdd y data a oedd yn cael ei roi i'r Llywodraeth gan landlordiaid cymdeithasol ynghylch y cynnydd yr oeddent yn ei wneud tuag at gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru. Yn ddiweddarach, cyhoeddodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus adroddiad yn argymell y dylai rhywfaint o'r data a gyflwynwyd gan landlordiaid cymdeithasol fod yn destun gwiriad allanol. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod system gadarn ar waith i fonitro cynnydd tuag at gyrraedd y safonau ac, yn benodol, pa mor effeithiol yw'r defnydd o gyllid cyhoeddus wrth wneud hynny.

**Y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg.**

Cydnabu'r Gweinidog y gallai fod ffordd fwy trefnus o sicrhau bod holl bolisiau Llywodraeth Cymru yn cael eu sgrinio am eu heffaith ar yr iaith Gymraeg. Byddem

yn annog y Gweinidog i edrych ar hyn fel mater o frys ac i adrodd yn ôl i'r Cynulliad ar y cynnydd, gan gynnwys sut y gellid defnyddio polisiau ym mhob adran i weithredu *Strategaeth Iaith Gymraeg* a *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* y Llywodraeth.

Pan fydd data'r Cyfrifiad ar gael, dylid annog y Gweinidog i lunio targedau rhifol penodol ar gyfer ymrwymiadau ynghylch yr iaith Gymraeg yn y *Rhaglen Lywodraethu*, er mwyn i'r Cynulliad allu craffu a yw ei gyllid ar gyfer yr iaith Gymraeg yn cyflawni'i amcanion.

Dylai'r Gweinidog barhau i fonitro a yw'r cyllid y mae'n ei roi i Gomisiynydd y Gymraeg ar lefel briodol unwaith y dechreuir ar y broses o gyflwyno system safonau yn 2013.

Hyderaf y bydd ein sylwadau o gymorth i chi a gobeithio y byddant yn llywio gwaith eich Pwyllgor o graffu ar y gyllideb.

Yn gywir

**Ann Jones AC / AM**
Cadeirydd / Chair
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol